Gweithredu Strategaeth Ymgysylltu

Beth ydyn ni'n ei olygu?

Gall ymgysylltu â gwahanol fathau o ddysgwyr fod yn heriol, ond mae angen sicrhau diwylliant o bartneriaeth ystyrlon o'r radd flaenaf.

Y cam cyntaf yw canfod pa ddysgwyr neu ddemograffeg sy'n ymgysylltu a pha rai sydd ddim. Bydd monitro hyn yn helpu i dargedu'r grwpiau sydd ag angen mwy o sylw, gan eich galluogi chi i deilwra'ch cefnogaeth yn effeithiol. Mae angen i chi ddarganfod pam hefyd. Bydd canfod y rhesymau sylfaenol pam nad yw dysgwyr yn ymgysylltu yn allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn.

Unwaith i chi gasglu gwybodaeth, bydd angen i chi fabwysiadu gwahanol ddulliau i ymgysylltu'n llwyddiannus â'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Ni fydd hwn yn ymagwedd sy'n addas i bawb, ond bydd y canlyniad yn golygu llais mwy cynrychioliadol i ddysgwyr.

Pam strategaeth ymgysylltu?

Gall ymgysylltu'n gyfartal â'ch holl grwpiau o ddysgwr gael effaith anferth ar y myfyrwyr a'r sefydliad ei hun.

Myfyrwyr

- Mae gwell ymgysylltu'n golygu teimlo eich bod yn gallu bod yn rhan o'r broses a chreu newid
- Cynrychiolaeth well drwy'r coleg
- Ymwneud yn fwy â mentrau llais y dysgwr, fel cynrychiolwyr cwrs

Sefydliad

- Gall ymgysylltu'n amlwg â phob grŵp o ddysgwyr wella boddhad myfyrwyr
- Gwell presenoldeb mewn digwyddiadau

Ble i ddechrau

Mae dau brif gam: monitro'r ymgysylltu, a gwella'r ymgysylltu â gwahanol fathau o ddysgwyr.

Monitro ymgysylltu

Sicrhewch fod eich dulliau monitro'n gweddu i'ch anghenion.

Mae amrywiaeth o ffyrdd o fonitro ymgysylltu eich dysgwyr, gan ddibynnu ar yr hyn rydych yn ceisio'i ddarganfod. Sicrhewch eich bod yn teilwra'ch dulliau i ystyried hyn. **Peidiwch ag ysgrifennu arolwg er lles ysgrifennu arolwg** – cofiwch am yr hyn rydych am ei fonitro, a mabwysiadwch y dull mwyaf priodol.

Os bydd yn bosib, gallwch ofyn i bwy bynnag sy'n meddu ar y data yn eich sefydliad am ddemograffeg y dysgwyr hynny sy'n ymwneud â rhai gweithgareddau. Ond ni fydd hyn ddim yn bosib bob tro, felly bydd modd cymryd camau eraill.

Un ffordd o geisio monitro ymgysylltiad yw arolygon, ond mae'n bosib nad yw'r ymgysylltu â'r arolwg yn gwbl ddilys, sydd felly'n creu data nad yw'n wirioneddol gynrychioliadol. Mae'n dibynnu ar y ffordd rydych yn cynnal eich arolwg, a'r hyn rydych yn ceisio ei ddarganfod. Mae arolygon yn ffordd

effeithiol o gasglu data ar nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau (os nad oes modd canfod yr wybodaeth hon mewn unrhyw ffordd arall, fel casglu data cofrestru). Mae'n ffordd effeithiol o sefydlu'r rhesymeg y tu ôl i ddiffyg ymgysylltu hefyd. Mae modd eu defnyddio i dargedu cynulleidfaoedd penodol, neu mae modd eu dosbarthu i holl gorff y myfyrwyr. Penderfynwch ar yr hyn rydych am ymchwilio iddo, a gweithiwch yn ôl oddi yno.

Mae grwpiau ffocws hefyd yn ffordd dda o fonitro ymgysylltu, cyn belled â bod gennych amrywiaeth o ddysgwyr. Gall hyn ynddo'i hun fod yn her, ond gall hyd yn oed y myfyrwyr sy'n bresennol fod yn arwydd da o ymgysylltiad cyffredinol.

Yr hyn sy'n gwneud grŵp ffocws effeithiol yw sicrhau bod ganddo ddiben clir a diffiniedig. Mae cael dysgwyr yn yr ystafell yn adnodd gwerthfawr iawn a gall fel arfer roi goleuni manylach ar y rhwystrau sy'n atal ymgysylltu o'u cymharu ag arolwg syml, felly manteisiwch i'r eithaf ar yr amser. Paratowch gwestiynau a ddylai eich helpu i fynd at wraidd pam mae rhai dysgwyr yn cymryd rhan a pham nad yw eraill, neu i ddarganfod pa weithgareddau a mentrau a all helpu i wella'r lefel ymgysylltu.

Unwaith y byddwch wedi cynnal eich ymchwil i ymgysylltu a sefydlu pa feysydd i'w gwella, mae'n bryd mabwysiadu strategaeth i helpu i fynd i'r afael â'r rhain.

Strategaethau ymgysylltu

Ni fydd yr hyn sy'n addas i un grŵp o ddysgwyr yn addas o'r rheidrwydd i bawb.

Er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus â'ch holl ddysgwyr, o fyfyrwyr rhan amser a myfyrwyr hŷn, prentisiaid a myfyrwyr dysgu oedolion yn y gymuned, i fyfyrwyr CLIE a rhyngwladol, bydd angen i chi fabwysiadu gwahanol ddulliau. Ni fydd yr hyn sy'n addas i un grŵp yn addas o'r rheidrwydd i bawb. Mae'n hawdd cwympo i fagl gweddu i 'ddysgwyr cyffredinol' yn unig ac anghofio am wir amrywioldeb corff y myfyrwyr.

Gall ymgysylltu â'r grwpiau hyn fod yn heriol, ond nid yw hynny'n golygu y dylid eu hanwybyddu. Dylech ddod o hyd i'r dull sy'n addas i'ch sefydliad chi. Isod ceir ambell awgrym gan golegau a phrifysgolion eraill. Ceisiwch ddefnyddio'r rhain i ysbrydoli'ch atebion eich hun – a rhowch wybod i ni sut roedden nhw'n gweithio!

Grŵp Llandrillo Menai – prentisiaid a dysgwyr AU

Peidiwch â chwympo i ffagl gweddu i 'ddysgwyr cyffredinol' yn unig.

Mae GLlM wedi sicrhau bod modd i'w prentisiaid ddefnyddio'u ffonau symudol i wneud arolygon a gaiff eu cynnal gyda dysgwyr. Mae hyn yn ei gwneud yn haws iddynt gymryd rhan. Hefyd, gofynnir i aseswyr drosglwyddo gwybodaeth a hysbysiadau perthnasol i brentisiaid ynghylch eu hymweliadau. Mae'r addasiad syml hwn yn golygu bod prentisiaid yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan ac i ymgysylltu â'r coleg a'i weithgareddau.

Mae ganddynt ddiwrnodau blasu hefyd fel diwrnod 'Edrych ymlaen at AU' ar gyfer dysgwyr sy'n dychwelyd i astudiaethau AU. Dyma weithgareddau cychwynnol pwysig gyda'r grŵp hwn, sy'n hyrwyddo eu rôl yn y sefydliad.

Addysg Oedolion Cymru – ymgysylltu cyffredinol

Mae Addysg Oedolion Cymru wedi bod yn treialu sawl menter newydd i wella cyfranogiad dysgwyr. Ymhlith y rhain mae anfon ffurflenni i'r dysgwyr sy'n gofyn, "Oes unrhyw broblemau?" – dull rhagweithiol o gasglu pryderon neu anfodlonrwydd dysgwyr, a fydd yn annog dysgwyr llai hyderus i roi adborth.

Arbrawf arall sy'n digwydd yw'r cynllun 'Fy Nhaith Ddysgu'. Ei ddiben yw cofnodi sgiliau meddal a'r cynnydd a wnaed, sy'n ffordd dda o fonitro'r effaith y mae addysg yn ei chael ar ddysgwyr unigol ac mae modd ei ddefnyddio i ddatblygu hyder dysgwyr.

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Manceinion – dysgwyr o bell

Ym Manceinion, mae nifer o fyfyrwyr sy'n astudio y tu hwnt i'r campus, felly cymerwyd camau i ymgysylltu â nhw yn benodol. Y cam cyntaf oedd gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i greu swydd newydd – Cydlynydd Prosiect Myfyrwyr y Tu Hwnt i'r Campws. Mae'r aelod hwn yn arwain y gwaith ymgysylltu â dysgwyr o bell.

Ymhlith y mentrau a gynhelir mae:

- Cynnal gweithgareddau cymdeithasol, croeso a chymorth.
- Rhoi cymorth i gymdeithas weithgar (cwrdd a chyfarch, cwisiau, prydau bwyd ac ati).
- Prosiectau Taith Ddiwrnod – mae myfyrwyr lleol yn tywys myfyrwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r ddinas, gan fynd â nhw i ddigwyddiadau fel gemau pêl-droed yr adrannau is a ffeiriau cymunedol.
- Ymgyrchu dros docynnau trafnidiaeth rhatach i fyfyrwyr sy'n teithio i'r campws.

Er na fydd y rhain yn uniongyrchol berthnasol i ddysgwyr mewn colegau sy'n dueddol o fyw y tu hwnt i'r campws, mae modd defnyddio rhai o'r syniadau hyn mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, mae cymdeithasau gweithgar yn ffordd effeithiol o helpu i ymgysylltu'n well â dysgwyr. Mae modd newid y prosiect Taith Ddiwrnod ychydig i ganiatáu i ddysgwyr ail flwyddyn helpu i groesawu myfyrwyr newydd.

Coleg Gŵyr Abertawe – sgiliau byw'n annibynnol

Yng Ngholeg Gŵyr, caiff tiwtoriaid ar leoliadau gwaith a chyrsiau sgiliau byw'n annibynnol eu targedu'n benodol er mwyn hyrwyddo cyngor y myfyrwyr a chyfleoedd eraill i gymryd rhan yn y grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd. Eto, dyma gam syml iawn i geisio cynnig cyfleoedd i bob dysgwr yn gyfartal.

Cyngor cyffredinol

Dyma rai awgrymiadau mwy cyffredinol y gallwch eu gweddu i bob math o ddysgwr.

- **Rhowch ddewis i'ch dysgwyr.** Recriwtiwch nifer fawr o ddysgwyr i banel, a rhowch opsiwn iddynt ddewis dulliau penodol o gymryd rhan (e.e. arolygon, grwpiau ffocws ar-lein, cyfweliadau ar y ffôn, profion defnyddioldeb). Yna, cysylltir â'r dysgwyr sydd wedi dewis cymryd rhan (mewn grwpiau ffocws ar-lein, er enghraifft) bob tro caiff grŵp ffocws ei drefnu, gan ofyn a hoffent gymryd rhan. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gweddu iddynt.
- Mae **tîm canolog adborth myfyrwyr** yn golygu bod modd i ddysgwyr gyfeirio eu holl sylwadau neu bryderon at un lle, a bydd staff yn cyfeirio'r rhain at yr adrannau perthnasol er mwyn iddynt ymateb a/neu weithredu arnynt. Mae modd cyflwyno sylwadau'n ddienw hefyd, sy'n atal diffyg hyder rhag bod yn rhwystr.
- Wrth lwyddo i ymgysylltu ag un grŵp o ddysgwyr, **cofiwch am unrhyw leiafrifoedd eraill yn eich sefydliad**. Eich nod hirdymor ddylai fod ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau o fyfyrwyr, yn hytrach na dim ond un.
- **Cofiwch fod yr ymgysylltu'n barhaus.** Peidiwch â chynnal un arolwg un flwyddyn a meddwl y bydd y canlyniadau'n para am oes. Mae'n bwysig ailasesu'ch strategaeth ymgysylltu drwy'r amser fel ei bod yn parhau i fod o fudd i ddysgwyr dros y tymor, y flwyddyn a'r tu hwnt.

Crynodeb

Nid yw ymgysylltu â myfyrwyr yn dasg hawdd. Os ydych yn cynnal ymchwil ac yn rhoi strategaeth ar waith, fe welwch y gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr. Mae cynnwys dysgwyr yn agwedd angenrheidiol ar bartneriaeth, felly mae'n bwysig iawn ymgysylltu â'r nifer fwyaf a'r amrywiaeth fwyaf o ddysgwyr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Wise Cymru (manylion isod).

Adnoddau

- Strategaeth Ymgysylltu â Dysgwyr, Coleg Aberdeen (2012)
- Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr, Coleg Milton Keynes (2016)
- Learner Engagement: A review of learner voice initiatives across the UK's education sectors (Walker a Logan, 2008)

Jessica Rumble,
Ymgynghorydd Prif / Lead Consultant
jessica.rumble@nus-wales.org.uk

Charlotte West,
Ymgynghorydd / Consultant
charlotte.west@nus-wales.org.uk